
Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cefnogi plant ac oedolion sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin plant yn rhywiol



Gorffennaf 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: '**Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol yng Nghymru (2025 – 2035)**'.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud ni, mae hyn yn meddwl Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/strategaeth-genedlaethol-ar-atal-ac-ymateb-i-gam-drin-plant-yn-rhywiol

**Ebost:** CSA.NationalStrategy2025-2035Consultation@gov.wales

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Cynnwys

**Geiriau a termau pwysig** ........ **4**

**Am y cynllun yma** ........ **7**

Ein gweledigaeth ........ 10

**Sut wnaethon ni'r cynllun yma** ........ **11**

**Ein blaenoriaethau** ........ **12**

**Beth wnaethon ni ei ddarganfod** ........ **14**

Am gam-drin plant yn rhywiol ........ 14

**Ein nodau** ........ **18**

**Nodau eraill** ........ **32**

**Sefydliadau a phobl fydd yn helpu gyda'r nodau yma:** ........ **34**

**Cydweithio** ........ **35**

**Beth sy'n digwydd nesaf** ........ **37**

# Geiriau a termau pwysig



## Cam-drin Plant yn Rhywiol

**Cam-drin plant yn rhywiol** ydy pan fydd rhywun yn gwneud rhywbeth rhywiol i, neu gyda phlentyn.

Gan gynnwys pethau fel:

- Gorfodi neu dwyllo plentyn i wneud gweithredoedd rhyw.
- Cyffwrdd plentyn mewn ffordd rywiol.
- Gwneud i blentyn wylio gweithgareddau rhywiol.
- Dangos lluniau neu fideos rhywiol i blentyn.
- Gofyn neu wneud i blentyn weithredu mewn ffordd rywiol.



## Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Dyma pan mae pethau yn cael eu rhoi i blentyn yn gyfnewid am:

- gwneud pethau rhywiol,
- neu gael pethau rhywiol wedi'u gwneud iddyn nhw.



Efallai y byddan nhw yn cael pethau fel bwyd, anrhegion, arian, neu sylw. Neu efallai y byddan nhw yn cael eu brifo, eu bygwth, neu eu dychryn i wneud hynny.



## Ymddygiad rhywiol niweidiol

Ymddygiadau rhywiol gan blant dan 18 oed sydd ddim yn addas i'w hoedran. Mae'n gallu cynnwys brifo eu hunain neu eraill.



## Rhwydwaith gyfundrefnol

Mae **rhwydwaith gyfundrefnol** yn meddwl 2 neu fwy o bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd i gam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn yn gallu cynnwys:

- Cyflwyno plant i eraill am gamdriniaeth.
- Masnachu plant ar gyfer cam-drin rhywiol. Mae masnachu yn meddwl cymryd, cadw a chludo plant.
- Cael pobl i dalu am weithgaredd rhywiol gyda phlentyn.



## Dioddefwyr neu oroeswyr

Mae hyn yn meddwl pobl sydd wedi cael eu **cam-drin yn rhywiol** fel plant.



## Gofal sy'n seiliedig ar drawma

**Trawma** ydy'r effaith barhaol y mae profiad niweidiol yn ei gael ar rywun.



Mae **gofal sy'n seiliedig ar drawma** yn meddwl deall yr effaith mae **trawma** yn ei gael. Rydyn ni'n darparu gofal sy'n canolbwyntio ar beth sydd wedi digwydd iddyn nhw dim beth sydd o'i le gyda nhw.

# Am y cynllun yma




Mae hwn yn gynllun 10 mlynedd.

Nod y cynllun yma ydy cefnogi:



- plant sydd wedi profi **cam-drin rhywiol**,



- ac oedolion sydd wedi cael eu **cam-drin yn rhywiol** fel plant.

Rydyn ni eisiau:



- Stopio **cam-drin plant yn rhywiol** cyn iddo ddigwydd.



- Rhoi’r gefnogaeth orau i bobl ar yr adeg iawn.



- Gweithio gyda’n gilydd i gyflawni ein nodau.



- Edrych i weld os ydy’r cynllun yn gweithio. Gwella pethau lle mae angen.



**Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi’n feddwl am y cynllun yma.**



Darllenwch y ddogfen yma ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.




Anfonwch eich atebion i ni erbyn **Dydd Mercher 8 Hydref 2025**.

## Ein gweledigaeth



Mae gweledigaeth yn meddwl beth rydyn ni eisiau i'r cynllun yma ei gyflawni.

Rydyn ni eisiau:



- Pob plentyn yng Nghymru i fod yn ddiogel rhag **cam-drin plant yn rhywiol**.



- Pobl sy'n cael eu heffeithio gan **gam-drin plant yn rhywiol** i gael yr help a'r gefnogaeth maen nhw ei angen. Cyn hired ag y maen nhw angen.

# Sut wnaethon ni'r cynllun yma



Fe gafodd digwyddiadau a gweithdai eu cynnal i glywed gan bobl a sefydliadau.



Fe wnaethon ni wrando ar oedolion a phlant a phobl ifanc oedd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol.



Fe wnaethon ni hefyd seilio'r cynllun yma ar gynlluniau ac adroddiadau pwysig eraill, fel:

- Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol (2019–2022) i stopio ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol.
- Yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA).
- Nodau llesiant Llywodraeth Cymru o 2021–2026.
- Cymru Iachach – y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Ein blaenoriaethau




Mae'r rhain yn bethau y byddwn ni'n eu gwneud fel bod pawb yn cael yr help maen nhw ei angen , pan fyddan nhw ei angen.



- Fe fyddwn ni'n casglu data gwell am **gam-drin plant yn rhywiol**. Fe fyddwn ni'n ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwell.



- Fe fyddwn ni'n helpu pobl i ddeall sut i adnabod ac adrodd am **gam-drin plant yn rhywiol**.



- Fe fyddwn ni'n helpu pobl i siarad am berthnasoedd, rhyw, a **cham-drin plant yn rhywiol**.




- Fe fyddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pob gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd ac yn dilyn yr un rheolau i helpu plant.



- Fe fyddwn ni'n helpu pobl i ddelio ag **ymddygiad rhywiol niweidiol** yn y ffordd gywir.



- Fe fyddwn ni'n creu hyfforddiant i bob gweithiwr sy'n helpu i gadw plant yn ddiogel.



- Fe fyddwn ni'n helpu gweithwyr i adrodd am **gam-drin plant yn rhywiol** a chadw plant yn ddiogel.



- Fe fyddwn ni'n datrys problemau mewn gwasanaethau sy'n cefnogi plant, teuluoedd a **dioddefwyr**.

# Beth wnaethon ni ei ddarganfod

## Am gam-drin plant yn rhywiol



Mae gwahanol fathau o **gam-drin plant yn rhywiol**:

- **Cam-drin rhywiol** yn y teulu. Mae'r rhan fwyaf o **gam-drin plant yn rhywiol** yn digwydd gartref neu gan rywun y mae'r plentyn yn ei adnabod.



- **Cam-drin rhywiol** gan rywun rydych chi'n ymddiried ynddo y tu allan i'r teulu.

- **Cam-drin rhywiol** gan grwpiau neu **rwydweithiau cyfundrefnol**.

- **Cam-drin rhywiol** gan ddieithryn

- **Camfanteisio'n rhywiol ar blant**. Mae hyn yn digwydd pan fydd plant yn cael eu twyllo neu eu gorfodi i weithgarwch rhywiol.

- Mae **cam-drin rhywiol** brodyr a chwiorydd yn gyffredin ac yn niweidiol iawn. Mae hyn yn meddwl pan fydd un brawd neu chwaer yn cam-drin brawd neu chwaer arall yn rhywiol.

- Mae angen cymorth arbennig ar blant sy'n dangos **ymddygiad rhywiol niweidiol** i ddeall eu teimladau a'u hanghenion.

## Stopio ac amddiffyn plant rhag cam-drin rhywiol




Mae'n bwysig i oedolion wrando'n ofalus ar blant. A'u credu nhw pan fyddan nhw'n adrodd eu stori.



Mae angen hyfforddiant da ar bob person sy'n gweithio gyda phlant i sylwi ar arwyddion o **gam-drin rhywiol**. A gwybod sut i helpu a chadw plant yn ddiogel.


## Cefnogaeth i bawb



Fe wnaethon ni ofyn i'r **Ganolfan Arbenigedd ar Gam-drin Plant yn Rhywiol** ddarganfod pa wasanaethau cymorth oedd ar gael.



Fe wnaethon nhw ddod o hyd i 78 o wasanaethau yn y DU sy'n helpu pobl a'u teuluoedd yng Nghymru.



Mae mwy o wasanaethau i blant nag i oedolion. Mae llai o wasanaethau i rieni plant sydd wedi cael eu **cam-drin yn rhywiol**.

## Bod yn gyfartal ac yn deg i bawb



Mae rhai plant yn fwy mewn perygl o **gam-drin rhywiol**. Mae hyn yn cynnwys plant sydd yn:

- **LHDTQ+** - Mae **LHDTQ+** yn sefyll am Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsryweddol, Queer a grwpiau eraill.
- Anabl
- Yn ifanc iawn
- O wahanol gefndiroedd ethnig



Does gennym ni ddim digon o wybodaeth am rai o'r plant yma. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach eu helpu.




Rhaid i wasanaethau cymorth ddeall a pharchu cefndir, oedran ac anghenion pob plentyn.



Mae angen help ychwanegol ar blant sy'n methu siarad neu sy'n anabl i gadw'n ddiogel..

# Ein nodau





Mae gan y cynllun yma 4 prif nod i'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth. Y rhain ydy:

1. Stopio **cam-drin plant yn rhywiol** rhag digwydd.

2. Cadw plant yn ddiogel pan mae pryderon.

3. Helpu plant a theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan gam-drin rhywiol.

4. Cefnogi oedolion a gafodd eu cam-drin yn rhywiol fel plant.




Fe wnaethon ni gynllun gweithredu ar gyfer pob nod. Fe wnaethon ni hefyd restru pobl a sefydliadau a fydd yn helpu gyda'r cynllun yma.

## Nod 1. Stopio cam-drin plant yn rhywiol rhag digwydd



- Rydyn ni eisiau i bawb deimlo'n ddiogel. Rydyn ni eisiau i bobl allu siarad am **gam-drin plant yn rhywiol**. Rydyn ni eisiau codi ymwybyddiaeth a chefnogi pobl.



- Fe ddylai pobl wybod sut i gadw plant yn ddiogel a sut i adrodd am gamdriniaeth.



- Fe ddylai cymunedau gael eu cefnogi i adnabod arwyddion o **gam-drin rhywiol plant** ac adrodd am eu pryderon.



- Fe ddylai pobl sy'n cam-drin plant, neu sy'n meddwl am wneud hynny, gael yr help cywir i'w stopio rhag achosi niwed.

## Camau gweithredu:



- Codi ymwybyddiaeth am **gam-drin plant yn rhywiol**.




- Cael adnoddau mewn 1 lle fel bod yn hawdd dod o hyd iddyn nhw. Gwneud nhw mewn gwahanol fformatau ac ieithoedd fel bod pawb yng Nghymru yn gallu deall.



- Rhannu gwybodaeth glir am **gam-drin plant yn rhywiol** a pherthnasoedd.



- Helpu cymunedau i deimlo'n hyderus i siarad am ac adrodd am **gam-drin plant yn rhywiol**.



- Cynnal digwyddiadau am gadw plant yn ddiogel a stopio **cam-drin rhywiol**.



- Gofyn i blant a phobl ifanc sut i wneud cartrefi, parciau, ysgolion, a chlybiau yn fwy diogel.



- Helpu pobl sydd â meddyliau am gam-drin plant, fel nad ydyn nhw'n achosi niwed.



- Helpu pobl ifanc i newid **ymddygiadau rhywiol niweidiol**.



- Gweithio gyda grwpiau ar draws Cymru i stopio trais.



- Creu cymunedau lle mae pobl yn gwybod sut i gefnogi'r rhai sydd wedi bod drwy brofiadau anodd.



- Dweud wrth rieni a gofalwyr lle i gael help.



- Gwneud yn siŵr bod plant yn gwybod sut i gael help os ydyn nhw'n teimlo'n anniogel.

## Nod 2. Cadw plant yn ddiogel pan mae pryderon



- Mae pob gweithiwr yn cael hyfforddiant am **gam-drin plant yn rhywiol**.



- Mae rhieni a gofalwyr yn cael help yn gyflym.



- Mae gwahanol asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd yn yr un ffordd ar draws Cymru.



- Mae gweithwyr proffesiynol yn gallu cael cyngor arbenigol i'w helpu i gefnogi plant, teuluoedd a **dioddefwyr**.



- Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n ddiogel i ddweud os ydyn nhw'n cael eu cam-drin yn rhywiol neu'n teimlo'n anniogel.

## Camau gweithredu:




- Edrych i weld ydy’r rheolau am adrodd am **gam-drin plant yn rhywiol** yn gweithio’n dda.




- Gwella canllawiau i weithwyr ar bob math o **gam-drin plant yn rhywiol** a sut i adnabod risgiau.



- Gweithio gyda Byrddau Diogelu i wneud yn siŵr bod pob asiantaeth yn gweithio gyda’i gilydd ar draws Cymru.



- Gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn gallu dod o hyd i adnoddau yn hawdd.



- Edrych ar sefydlu grwpiau arbenigol ar draws Cymru i helpu gydag  achosion o **gam-drin plant yn rhywiol**.



- Helpu plant a phobl ifanc i deimlo’n ddiogel i adrodd am **gam-drin rhywiol**.




- Diweddaru a rhannu canllawiau newydd i helpu i amddiffyn plant.

## Nod 3. Helpu plant a theuluoedd sydd wedi cael eu heffeithio gan gamdriniaeth



- Mae pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol yn cael yr help maen nhw ei angen, pan fyddan nhw ei angen.



- Fe ddylai pawb sy'n gweithio gyda phlant wybod sut i roi'r help cywir ar yr adeg iawn.



- Mae gan deuluoedd a gofalwyr fynediad at help i ateb eu hanghenion.

## Camau gweithredu:



- Edrych i weld pa gymorth sydd gennym yn barod.



- Gwneud yn siŵr bod plant yn gallu cael cwnsela arbenigol pan fyddan nhw ei angen.



- Rhoi gwybod i bobl am yr help sydd ar gael, fel beth mae elusennau yn gallu ei wneud.



- Gwneud yn siŵr bod gan bawb sy'n gweithio gyda phlant yr hyfforddiant cywir.



- Gofyn i weithwyr ddefnyddio **gofal sy'n seiliedig ar drawma**.



- Cynnwys teuluoedd a gofalwyr wrth wneud cynlluniau cymorth i blant sydd yn cael eu heffeithio gan **gam-drin rhywiol**.



- Cynnig cymorth i deuluoedd pan fydd rhywun yn cael ei arestio am **gam-drin rhywiol**.



- Rhoi cyngor clir i helpu teuluoedd i ddeall y gyfraith.

## Nod 4. Cefnogi oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant



- Rydyn ni eisiau i oedolion deimlo'n ddiogel i siarad am **gam-drin rhywiol** oedd wedi digwydd iddyn nhw pan oedden nhw'n blant.




- Fe ddylai pobl ifanc sydd wedi cael eu cam-drin gael cefnogaeth wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion.



- Fe ddylai gwasanaethau roi'r help cywir ar yr adeg iawn.

# Camau gweithredu:



- Helpu oedolion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol fel plant i deimlo'n ddiogel i rannu eu straeon.



- Rydyn ni eisiau i bob gweithiwr proffesiynol ddeall effeithiau hirdymor **cam-drin plant yn rhywiol**.




- Gwneud yn siŵr bod anghenion pobl ifanc yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau a gwasanaethau.



- Mae  pobl ifanc rhwng 18 a 25 oed yn gallu cael mynediad at ofal fel iechyd meddwl.



- Rhaid i oedolion gael mynediad at gwnsela a chefnogaeth.



- Gwneud gwasanaethau cymorth yn haws i'w darganfod.



- Dweud wrth bobl sut mae mudiadau gwirfoddol yn gallu cefnogi pobl.



- Gwneud hi'n glir beth mae'n rhaid i ofal cymdeithasol oedolion ei wneud i gefnogi **dioddefwyr** sy'n oedolion.



- Gwneud yn siŵr bod pobl sydd wedi dangos **ymddygiad rhywiol niweidiol** fel plant yn cael yr help cywir wrth iddyn nhw ddod yn oedolion.




- Ysgrifennu canllawiau clir i helpu cynghorau i gefnogi **dioddefwyr** sy'n oedolion.

# Nodau eraill

## 1. Cadw gwybodaeth am gam-drin plant yn rhywiol



Cadw set o wybodaeth bwysig am **gam-drin plant yn rhywiol** yng Nghymru.




Fe fydd y wybodaeth yma yn ein helpu i weld os ydy'r cynllun yma yn gweithio'n dda.



Fe fydd hefyd yn ein helpu i benderfynu ble i ganolbwyntio ein hamser, ein harian a'n cefnogaeth.

## 2. Datblygu system lle mae pawb sy'n cymryd rhan yn gweithio gyda'i gilydd ar draws Cymru



Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun yma fe fyddwn ni'n sefydlu 2 grŵp gweithredu.



Fe fydd 1 grŵp yn creu ffordd o ymateb i **gam-drin plant yn rhywiol** sy'n  digwydd ym mhob man ar draws Cymru.



Fe fydd y grŵp arall yn datblygu rhaglen hyfforddi genedlaethol.

# Sefydliadau a phobl fydd yn helpu gyda'r nodau yma:



- Timau Llywodraeth Cymru fel timau diogelwch ar-lein a chaethwasiaeth fodern a Chanolfannau Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARCs).
- Arweinwyr cymunedol



- Gwasanaethau cymunedol lleol
- Grwpiau elusennol a grwpiau gwirfoddol eraill



- Sefydliadau fel gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol plant, addysg a'r heddlu
- Byrddau Diogelu Rhanbarthol
- Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol



- Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru
- Grwpiau sy'n rhoi neu'n trefnu gwasanaethau cymorth

# Cydweithio



Dros y 10 mlynedd nesaf, fe fyddwn ni'n gweithio gydag eraill. Mae hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, a sefydliadau eraill.



Mae grwpiau sy'n gweithio ym maes troseddu a chyfiawnder yn gallu helpu trwy grŵp cynghori arbennig.




Mae deddfau newydd, fel Deddf Diogelwch Ar-lein 2023, yn amddiffyn plant rhag **cam-drin** ar-lein.



Rydyn ni eisiau i ysgolion gefnogi teuluoedd a gofalu am les plant.



Mae gweithwyr gofal plant yn treulio llawer o amser gyda phlant. Maen nhw'n gallu helpu i gadw plant yn ddiogel trwy adeiladu ymddiriedaeth.



Mae rheolau ar gyfer gofal plant a chwarae wedi’u diweddaru i wneud yn siŵr bod plant yn cael eu diogelu.



Mae plant sy’n wynebu amseroedd anodd yn fwy mewn perygl o **gam-drin rhywiol**. Mae’r **Hwb Profiadau Niweidiol Plentyndod (ACEs)** yn helpu pobl i ddysgu am hyn a dod o hyd i ffyrdd o amddiffyn plant.




Mae ein Strategaeth Iechyd Meddwl yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael help, waeth ble maen nhw’n mynd yn gyntaf.




Nod Strategaeth Tlodi Plant 2024 ydy cysylltu ein polisïau cenedlaethol, a’n cynlluniau gweithredu. Y nod ydy helpu plant a theuluoedd i ddod allan o dlodi a bod yn fwy diogel.




Mae Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei redeg gan Lywodraeth y DU. Y nod ydy stopio plant rhag mynd i’r llys a’u helpu i osgoi troseddu.

# Beth sy'n digwydd nesaf




Ar ôl i'r cynllun terfynol fod yn barod, fe fydd grŵp yn cael ei sefydlu. Enw'r grŵp yma fydd grŵp Gweithredu Strategol.




Fe fydd y grŵp yn gwneud cynllun gweithredu. Fe fyddan nhw'n edrych i weld pa mor dda mae'r cynllun yn gweithio.



Fe fyddan nhw'n rheoli grwpiau llai. Fe fydd y grwpiau yma yn canolbwyntio ar hyfforddi, casglu data, a helpu **dioddefwyr**.




Fe fyddan nhw'n ysgrifennu adroddiad bob blwyddyn.



Fe fyddan nhw hefyd yn sefydlu grwpiau cynghori. Fe fydd y grwpiau yma yn cynnwys **dioddefwyr** sy'n oedolion  a phobl ifanc.



Fe fydd tîm o Lywodraeth Cymru yn helpu'r holl grwpiau. Fe fyddan nhw'n gwneud yn siŵr bod pethau'n rhedeg yn esmwyth.



Fe fydd y grwpiau yn gweithio gyda'i gilydd i ddefnyddio adnoddau'n dda.




Fe fydd y cynllun yn cael ei wirio bob 3 blynedd. Ar ôl 9 mlynedd, fe fyddwn ni'n gwneud adolygiad llawn.